Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Iolo Morganwg
# Broadway
# Y Bont-Faen
# Vale of Glamorgan
# CF71 7ER

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Iechyd ar Waith · Cyrraedd y Nod · The Corporate Standard · Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd · Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 24/07/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Iolo Morganwg yn ysgol gymunedol Gymraeg o fewn y sector gwladol ar gyrion Y Bontfaen. Yr Awdurdod Lleol yw Bro Morgannwg ond daw'r disgyblion o ardal sy'n ymestyn o Benybont-ar-Ogwr yn y gorllewin hyd at gyrion Caerdydd a'r Barri yn y dwyrain.

Mae'r ysgol yn disgrifio'r ardal y daw'r disgyblion ohoni fel un sy'n gymharol ffyniannus er bod lleiafrif o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae gan 3.1% o'r disgyblion yr hawl i dderbyn cinio ysgol yn rhad ac am ddim sy'n sylweddol is na'r canrannau sirol a chenedlaethol.

Darpara'r ysgol addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Mae 220 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol sydd yn cynnwys dosbarth meithrin rhan amser. Derbynnir y disgyblion i'r ysgol yn amser llawn ar ddechrau Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Mae 5.5% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n is na'r ganran genedlaethol. Daw 73% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ebrill 2007.

Mae'r Pennaeth cyfredol wedi bod yn ei swydd ers Tachwedd 2007.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Iolo Morganwg yn 2012-2013 yw £3,360. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd ym Mro Morgannwg yw £10,677a'r lleiafswm yw £2,707. Mae Ysgol Iolo Morganwg yn safle 26ain o'r 148 ysgol gynradd ym Mro Morgannwg o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Rhagorol |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod safonau medrau allweddol rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn;
- bod canrannau uchel o ddisgyblion yn cyflawni tu hwnt i'r lefel ddisgwyliedig yn gyson;
- bod bron pob disgybl, ar draws yr ysgol, yn gwneud cynnydd eithriadol yn eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu;
- bod bron pob disgybl yn dangos cwrteisi, gofal a pharch tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr; a
- bod mwyafrif o athrawon yn darparu ystod goeth o brofiadau dysgu.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol oherwydd:

- bod yr ysgol yn gymuned ddysgu gref, sydd yn cael effaith sylweddol ar ddysgu a phrofiadau disgyblion;
- bod disgyblion yn gosod targedau heriol eu hunain sydd yn arwain at godi safonau;
- bod gan yr ysgol systemau trylwyr a chadarn ar gyfer hunanarfarnu;
- bod y pennaeth yn darparu arweiniad rhagorol ac mae ganddo ddisgwyliadau uchel o reolwyr a staff;
- bod galluoedd yr uwch reolwyr i ddatblygu a gweithredu mentrau newydd yn rhagorol; a
- bod gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol ac maent yn cymryd rhan flaenllaw wrth osod blaenoriaethau ar gyfer gwelliant.

## Argymhellion

A1 Codi safonau Saesneg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2

A2 Sicrhau cysondeb yn y marcio, fel bod gan y disgyblion well ddealltwriaeth o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith

A3 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 i ddatblygu'n ddysgwyr anibynnol

A4 Sicrhau gwell cysondeb yn y defnydd o weithdrefnau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Ysgol Iolo Morganwg yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob un o ddisgyblion Ysgol Iolo Morganwg yn ddysgwyr awyddus a brwdfrydig sy'n gwneud cynnydd da a chyson yn eu dysgu.

Mae safonau medrau allweddol rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn dda iawn. Mae bron pob un yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus, ac erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae llawer o'r disgyblion mwyaf galluog yn darllen gyda rhuglder, cywirdeb a mynegiant da iawn. Mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio arddulliau gwahanol yn llwyddiannus wrth ysgrifennu gyda enghreifftiau cyson o waith ysgrifennu ymestynnol o ansawdd uchel. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn cyflwyno eu gwaith yn dda ac mae safon llawysgrifen y rhan fwyaf yn datblygu'n briodol. Mae llawer o'r disgyblion yn siarad ac yn gwrando'n hyderus yn ystod eu gweithgareddau. Mae ystod gwybodaeth llawer o ddisgyblion ieuengaf y Cyfnod Sylfaen yn eithriadol a dangosant ddiddordeb a dyfalbarhad cyson yn eu gwaith.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio eu medrau meddwl yn hyderus er mwyn datrys problemau yn effeithiol wrth ymgymryd â thasgau ymchwiliol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mynegi eu syniadau, eu barnau a'u teimladau yn hyderus iawn ar lafar. Maent yn siarad yn glir ac yn estynedig am eu gwaith mewn amryw o sefyllfaoedd gan ddefnyddio geirfa gyfoethog ac amrywiol.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu'n dda iawn. Mae llawer o ddisgyblion yn trafod cynnwys llyfrau'n ddeallus, gan fynegi a chyfiawnhau barn am ddigwyddiadau a hoff gymeriadau'n hyderus. Mae'r mwyafrif yn ddarllenwyr brwdfrydig, ac mae'r goreuon yn defnyddio goslef llais i gyfleu ystyr yn effeithiol iawn. Mae'r mwyafrif yn defnyddio ystod o strategaethau darllen yn llwyddiannus i ddarganfod gwybodaeth. O ganlyniad, mae medrau trawsieithu llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda.

Ar draws yr ysgol, mae safon gwaith ysgrifenedig llawer o ddisgyblion yn dda. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall y mwyafrif o ddisgyblion ysgrifennu'n doreithiog ac yn estynedig at ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd, gan ddefnyddio dewis eang o eirfa. Mae ychydig o'r disgyblion mwyaf galluog yn cyrraedd safonau rhagorol yn eu gwaith ysgrifenedig trwy ddefnyddio strwythurau brawddegau a pharagraffu aeddfed ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn hyderus mewn ystod o gyd-destunau. O oedran cynnar, mae'r disgyblion yn adeiladu ar ddysgu blaenorol yn dda iawn ac yn ei ddefnyddio i ddatrys yr heriau maent yn eu hwynebu.

Mae bron pob disgybl ar draws yr ysgol, yn gwneud cynnydd eithriadol yn eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae'r disgyblion hŷn yn defnyddio technoleg sgrin werdd yn annibynnol i greu cyflwyniadau creadigol iawn, sydd yn cynnwys defnydd estynedig o ystod eang o fedrau aml gyfrwng cymhleth.

O fewn y teulu o ysgolion, mae cyflawniad disgwyliedig disgyblion y Cyfnod Sylfaen (Deilliant 5) ychydig yn is na'r cyfartaledd ym mhob maes yn 2012. O'i chymharu gydag ysgolion tebyg ar sail nifer y disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim, mae'r ysgol yn perfformio yn y 50% isaf ym mhob maes dysgu.

Yn gyffredinol, ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae cyrhaeddiad da dros y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) neu uwch, is na chyfartaledd y teulu yn 2012. O'i chymharu gydag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn yr 50% isaf ym mhob pwnc.

Mae cyflawniad y disgyblion ar y lefelau uwch (Deilliant 6+) yn y Cyfnod Sylfaen yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru ym mhob maes dysgu. Mae hyn yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf mewn datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemateg ac yn y 50% uchaf mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol.

Nodwedd arbennig o'r ysgol yw'r ganran uchel o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 sydd yn cyflawni y tu hwnt i'r lefel ddisgwyliedig. Dros y pum mlynedd diwethaf mae'r ganran sy'n cyflawni lefel 5 wedi bod yn sylweddol uwch na chyfartaledd ysgolion y teulu ym mhob pwnc. O'i chymharu gydag ysgolion tebyg o ran y nifer o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae'r ysgol ymysg y 25% uchaf yng Nghymru ar gyfer Cymraeg a mathemateg. Mae'r ganran sy'n cyrraedd y lefel uwch mewn gwyddoniaeth a Saesneg yn y 50% uchaf.

Nid oes tuedd amlwg wrth gymharu perfformiad bechgyn a merched.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd priodol mewn perthynas â'u gallu. Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng cyrhaeddiad disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim a gweddill disgyblion yr ysgol. Mae'r ychydig sy'n hanu o gefndir ethnig yn llwyddo i'r un graddau hefyd.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Mae'r rhan fwyaf yn gwerthfawrogi'r berthynas agos iawn sydd ganddynt â staff, yn seiliedig ar yr egwyddor bod gan bob unigolyn yr hawl i lwyddo.

Maent yn dangos dealltwriaeth dda o bwysigrwydd materion iechyd, ffitrwydd a byw'n iach ac mae llawer ohonynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol sy'n hybu'r agweddau hyn. Mae bron pob disgybl yn dangos cwrteisi, gofal a pharch tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae eu medrau cymdeithasol a'u gallu i gydweithio'n effeithiol gyda'u cyfoedion yn datblygu'n dda.

Mae ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol yn dda. Mae disgyblion hŷn yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol yn hyderus, fel llysgenhadon a chyfeillion buarth. Maent yn aml yn mynd allan o'u ffordd i helpu disgyblion iau.

Mae llawer o’r plant yn ymateb yn dda yn y gwersi ac yn dangos brwdfrydedd tuag at eu dysgu. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cymryd cyfrifoldeb ac yn gwneud penderfyniadau sy’n cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu. Nid yw hyn wedi ei ddatblygu i’r un graddau yng nghyfnod allweddol 2.

Mae llais y disgybl yn cael lle amlwg ac mae’n dylanwadu’n briodol ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae’r cyngor ysgol yn cynllunio rhaglen waith lwyddiannus ac yn rhoi cyflwyniadau rheolaidd am eu gweithgareddau yn y gymuned ehangach. Cydweithia’r cyngor yn agos gydag amryw o bartneriaethau er mwyn cyfrannu at ethos yr ysgol. Enghraifft dda o hyn yw eu hymroddiad i hyrwyddo agweddau ar fasnach deg ac i ddylanwadu ar werthoedd yr ysgol.

Er bod presenoldeb yr ysgol o gwmpas 95%, mae’r ysgol ymhlith y 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yn brydlon ar gyfer yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r mwyafrif o athrawon yn darparu ystod goeth o brofiadau dysgu. Mae gwaith cynllunio y rhan fwyaf o athrawon yn gyson dda ac yn sicrhau bod yr ysgol yn ateb gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a’r Cyfnod Sylfaen yn llawn. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae profiadau dysgu ysgogol yn ennyn diddordeb y disgyblion ac yn hyrwyddo annibyniaeth. Mae’r staff yn cynllunio defnydd helaeth ac effeithiol o’r ardal ddeniadol tu allan.

Mae profiadau dysgu yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu’n llwyddiannus ar y profiadau blaenorol ar gyfer rhan fwyaf y disgyblion. Mewn ychydig o ddosbarthiadau, nid oes cyfleoedd digonol i ddisgyblion weithio’n annibynnol a gwneud penderfyniadau am eu dysgu. Mae’r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol ac ymwelwyr i’r ysgol yn cyfrannu’n werthfawr at brofiadau dysgu'r mwyafrif o ddisgyblion.

Mae cynllunio effeithiol ar gyfer datblygu medrau’r disgyblion ar draws yr ysgol. Darperir cyfleoedd symbylus i’r disgyblion ysgrifennu i bwrpasau amrywiol ac mae strategaethau llwyddiannus ar waith i ddatblygu eu medrau darllen. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion yn nodwedd ardderchog.

Mae’r Cwricwlwm Cymreig yn chwarae rhan allweddol ym mywyd a gwaith yr ysgol, ac mae’r arddangosfeydd trawiadol yn hybu ac yn dathlu Cymreictod. Mae’r pwyslais a roddir ar hybu defnydd graenus o’r iaith Gymraeg yn sicrhau bod medrau llafar llawer o’r disgyblion yn datblygu’n llwyddiannus.

Mae’r cyswllt agos gydag ysgol yng Nghenya wedi’i wreiddio yn y cwricwlwm ac yn cyfrannu’n sylweddol at ddealltwriaeth y disgyblion o’r byd ehangach. Mae

dealltwriaeth dda gan y disgyblion o warchod yr amgylchfyd a chynaliadwyedd ac roedd y prynhawn heb drydan yn ddiweddar wedi cyfrannu yn effeithiol at hyn.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu da ar draws yr ysgol yn sicrhau bod y disgyblion wedi'u cymell ac yn dangos diddordeb yn eu dysgu. Mae'r holl athrawon yn hyddysg yn eu gwaith ac mae ganddynt wybodaeth bynciol dda. Maent yn cynllunio ystod o weithgareddau diddorol er mwyn ysgogi mwyafrif o'r disgyblion.

Mae'r athrawon a'r staff cynorthwyol yn cydweithio'n effeithiol ac mae'r rhan fwyaf yn modelu iaith lafar dda iawn. Mae llawer o'r staff yn defnyddio strategaethau rheoli dosbarth yn effeithiol iawn.

Lle mae'r addysgu ar ei orau, mae disgwyliadau uchel gan yr athrawon a nodau dysgu pendant i'r wers. Yn y gwersi hyn, mae athrawon a'r cymhorthyddion yn cwestiynu'r disgyblion yn gelfydd er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth a datblygu eu medrau meddwl a chyfathrebu yn effeithiol. Mewn lleiafrif o'r gwersi, nid yw'r profiadau addysgu yn ymateb yn ddigon effeithiol i'r ystod gallu o fewn y dosbarth.

Mae ansawdd y marcio yn amrywio ar draws yr ysgol ac nid yw bob amser yn dangos yn ddigon clir beth sydd angen i ddisgyblion ei wneud er mwyn gwella eu gwaith. Yn yr arfer orau, mae cyfleoedd da i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd. Mae'r mwyafrif o athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o strategaethau asesu ar gyfer dysgu ond nid yw hyn wedi'i wreiddio'n ddigonol ar draws yr ysgol. Mae'r disgyblion yn gosod targedau heriol eu hunain gyda chymorth yr athrawon. Mae prosesau cadarn ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion yn rheolaidd. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio'n effeithiol ar gyfer adnabod anghenion gwahanol garfanau o ddisgyblion ac i gynllunio'r camau nesaf mewn dysgu.

Mae'r adroddiadau a gyflwynir i'r rhieni yn cynnig gwybodaeth glir am gynnydd eu plant ac maent yn ateb y gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae Ysgol Iolo Morganwg yn gymuned ddiogel, drefnus a gofalgar, lle caiff pawb ei werthfawrogi. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn dda. Rhoddir pwyslais cadarn ar addysgu disgyblion am werthoedd drwy'r defnydd o werth y mis. Caiff manteision byw yn iach eu hyrwyddo'n effeithiol ar draws y cwricwlwm ac mewn gweithgareddau allgyrsiol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau buddiol ag asiantaethau allanol sydd yn gwella'r cymorth a'r arweiniad ar gyfer y disgyblion. Mae trefniadau ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd helaeth o arbenigedd asiantaethau fel yr heddlu, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r cyd berthynas hon yn sicrhau cefnogaeth gynnar ac effeithiol pan fo angen.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Sicrheir bod y disgyblion yn cael eu hadnabod yn gynnar ac mae darpariaeth fuddiol ar eu cyfer. Mae gan y disgyblion gynlluniau addysg unigol addas sy'n cael eu rhannu gyda'r rhieni ac yn cael eu hadolygu'n gyson. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion mwy abl yn dda ac mae'r gefnogaeth ar gyfer yr ychydig hynny sydd yn eithriadol abl yn datblygu yn briodol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol iawn lle caiff disgyblion hawl gyfartal i'r holl weithgareddau a drefnir ar eu cyfer. Mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau yn eu lle sy'n sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl ac sy'n hybu ethos goddefgar.

Mae gorwelion yr ysgol yn lledu y tu hwnt i'w bro ac mae'r ysgol wedi creu cysylltiad gweithredol a chyffrous gydag ysgol yn Kenya. Mae materion masnach deg a chynaliadwyedd yn amlwg yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn hybu ymwybyddiaeth o Gymreictod yn dda iawn, er enghraifft drwy arddangos gwaith celf, barddoniaeth a cherddoriaeth symbylus o Gymru ochr yn ochr â gwaith o ddiwylliannau eraill a gwaith y disgyblion eu hunain.

Er bod yr adeilad yn hen ac yn gyfyng, mae'n cael ei gynnal a'i gadw yn dda. Mae'r corff llywodraethol, y pennaeth a'r staff wedi datblygu'r adeilad i fod yn lle deniadol, cyffrous a diogel. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'r gwagleoedd prin sydd ar gael i addysgu grwpiau ffocws ac i greu arddangosfeydd lliwgar a phwrpasol sy'n cefnogi'r dysgu.

Mae maint buarth y disgyblion hŷn yn cyfyngu ar y gweithgareddau y gellir eu cyflawni. Fodd bynnag, gwneir defnydd effeithiol o'r ardal chwarae gymunedol gyfagos sydd ar gael i'r ysgol. Mae ystod dda o offer ac adnoddau addas yn ardaloedd allanol y Cyfnod Sylfaen, sy'n cyfoethogi'r dysgu a'r addysgu yn briodol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Rhagorol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol iawn. Mae ganddo weledigaeth glir a llwydda i arddel disgwyliadau uchel ymhlith y staff ar ddisgyblion. Maent i gyd yn cydweithio'n ddigyfaddawd i sicrhau bod cymuned yr ysgol yn un drefnus ac wedi ei rheoli'n llwyddiannus iawn. Mae gan reolwyr uwch rolau pendant sy'n cyfrannu'n eithriadol at welliannau. Mae'r ffocws ar godi safonau, drwy systemau hunanarfarnu grymus, yn glir ac yn sicrhau bod perfformiad yr ysgol yn cael ei herio'n gyson. Mae'r pennaeth, yr uwch dîm rheoli a staff eraill yn cydweithio'n effeithiol iawn fel cymuned broffesiynol ymroddedig. Mae cydlynwyr pwnc yn meddu ar ddealltwriaeth lawn a chywir o anghenion eu pynciau ac mae'r safonau a gyflawnir yn dda iawn.

Mae'r pennaeth wedi cyflwyno systemau rheoli perfformiad sydd wedi'u diffinio'n dda ar gyfer athrawon a chynorthwywyr gyda thargedau sy'n cysylltu'n dda â blaenoriaethau'r ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn adnabod yr ysgol yn dda iawn ac maent yn cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol fel cyfeillion beirniadol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol ac yn dadansoddi data yn dda iawn er mwyn gosod blaenoriaethau. Maent yn cymryd rhan flaenllaw yn addysg y disgyblion. Er enghraifft mae eu cysylltiad gyda chlwb ffilmiau'r ysgol wedi creu cyfleoedd eang, tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, i ehangu arddulliau ysgrifennu a chodi safonau llythrennedd y disgyblion hŷn.

Mae uwch reolwyr yn arwain mentrau a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn llwyddiannus er mwyn datblygu agweddau penodol ar fywyd yr ysgol. Mae mentrau mewn llythrennedd a TGCh yn cael effaith gref ar y safonau uchel a gyflawnir gan ddisgyblion.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol systemau arfarnu arbennig sydd wedi ymsefydlu'n gadarn dros gyfnod. Trwy ddadansoddiad rheolaidd a thrylwyr o ystod o ddata, arsylwadau gwersi a chraffu ar waith y disgyblion, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth arbennig o gryfderau a meysydd ar gyfer datblygu'r ysgol. Mae'r ysgol yn casglu barn disgyblion, rhieni a rhandeiliad eraill yn effeithiol iawn, yn dadansoddi canlyniadau ac yn gweithredu ar ddeilliannau'n ofalus. Mae'r prosesau hyn wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â chynllunio strategol yr ysgol.

Cryfder yn y broses hunanarfarnu yw'r ffordd y mae pob aelod o staff yn rhannu eu syniadau, gwybodaeth ac arbenigedd. Mae cydlynwyr pwnc yn cynnal adolygiadau trylwyr iawn i sicrhau bod ganddynt ddarlun clir a dealltwriaeth gadarn o safonau a darpariaeth. Mae'r blaenoriaethau, sy'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau, yn cael eu cynnwys yn ofalus yng nghynllun datblygu'r ysgol. Defnyddir y ddogfen hon yn effeithiol iawn er mwyn hyrwyddo gwelliant a dyrannu adnoddau a chyfrifoldebau staff er mwyn bodloni'r blaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod.

Mae'r ysgol wedi datblygu cysylltiadau da iawn gydag ysgolion eraill yn y teulu. Mae hyn yn sicrhau cyfleoedd eang i rannu arfer dda ac i fyfyrio ar effaith eu harfer eu hunain ar ddysgu a lles disgyblion. O fewn yr ysgol, mae ymrwymiad staff i rannu eu gwybodaeth broffesiynol yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu dulliau cyffrous ar gyfer dysgu ac addysgu. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ysgol wedi ymchwilio i, a datblygu ffyrdd llwyddiannus o hyrwyddo darllen. Mae hyn wedi arwain at gynnydd eithriadol mewn safonau darllen eleni.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol ystod o bartneriaethau effeithiol iawn sy'n gwneud cyfraniad eithriadol at godi safonau a chefnogi lles bron pob disgybl.

Mae'r bartneriaeth gyda'r rhieni yn ardderchog. Mae'r ysgol yn gweithio'n galed i'w cynnwys yn addysg eu plant. Derbyniant fanylion cyson a chyfredol am y gwaith, ynghyd â manylion ar sut y gallant gefnogi eu plant yn rheolaidd. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi dechrau trydar er mwyn rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau cyfoes ysgol gyfan a dosbarthiadau unigol. Mae'r ysgol yn cynnig gweithdai llythrennedd a rhifedd i rieni sy'n cael eu cynnal yn ystod diwrnod ysgol. Mae'r

rhieni'n cael cyfle i leisio eu barn trwy holiaduron a chyfarfodydd cyson. Mae'r mentrau hyn yn sicrhau bod gan rieni ddealltwriaeth dda iawn o sut i gefnogi addysg eu plant.

Mae sefydlu partneriaeth arloesol â busnes masnachol lleol wedi cael effaith arwyddocaol ar systemau rheoli perfformiad yr ysgol. Mae'r strategaethau a rannwyd gyda'r ysgol wedi cael effaith uniongyrchol a chadarnhaol ar godi safonau yn enwedig yn y medrau allweddol. Mae'r bartneriaeth hon hefyd wedi creu cyfleoedd eang i ehangu medrau bywyd a thraws cwricwlaidd disgyblion hŷn.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda'r cylch chwarae lleol ac mae'n darparu sesiynau pontio rheolaidd ar gyfer disgyblion cyn iddynt drosglwyddo i'r dosbarth meithrin. Mae hyn yn hwyluso eu mynediad i'r ysgol ac yn atgyfnerthu'r berthynas â rhieni newydd.

Mae bron pob disgybl yn trosglwyddo i addysg uwchradd Gymraeg o fewn yr awdurdod lleol. Mae gan yr ysgol gysylltiadau da iawn gyda'r ysgol gyfun ac maent wedi datblygu trefniadau trosglwyddo llwyddiannus. Mae yna weithdrefnau cymedroli a safoni o ansawdd uchel ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

Mae'r gan yr ysgol hefyd gysylltiadau agos gyda'i chlwstwr o ysgolion a gyda rhai ysgolion o fewn y teulu. Nodwedd ragorol ar y berthynas hon yw'r defnydd arloesol o rannu gwybodaeth ac arfer dda gan ddefnyddio storfa e-flwch rwydweithiol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n effeithiol gan nifer o athrawon da sydd ag ehangder o gymwysterau a phrofiad. Mae'r ysgol yn defnyddio ei staff cymorth yn feddylgar ac yn strategol er mwyn codi safonau mewn llythrennedd, rhifedd ac i gefnogi grwpiau ac unigolion bregus.

Mae systemau rheoli perfformiad yn gadarn ac yn canolbwyntio'n dda ar fynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol. Mae gan yr ysgol adnoddau da ar gyfer addysgu a dysgu. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer athrawon i gynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol iawn.

Mae'r adnoddau ariannol yn cael eu rheoli'n ofalus a'u defnyddio'n dda iawn i wella adnoddau ac ansawdd yr addysgu. Mae'r cynllun gwella ysgol yn cael ei gostio'n gywir a'i adolygu'n rheolaidd.

Oherwydd bod y disgyblion yn cyflawni ac yn gwneud cynnydd da, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012, mae canlyniadau disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig (Deilliant 5 neu'n uwch) yn Nangosydd Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen ychydig yn uwch na chanlyniadau disgyblion mewn ysgolion eraill yn y teulu. Fodd bynnag, mae cyflawniadau disgyblion ym mhob un o'r meysydd dysgu unigol ychydig yn is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion ond yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. Mae cyflawniad y disgyblion ar y lefelau uwch (Deilliant 6) yn sylweddol uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn datblygiad iaith a llythrennedd ac mewn datblygiad mathemategol, ac ychydig yn uwch na'r cyfartaledd mewn datblygiad personol a chymdeithasol.

O'u cymharu gydag ysgolion tebyg ar sail nifer y disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim, mae'r ysgol yn y 50% isaf ym mhob maes dysgu ar gyfer y lefel ddisgwyliedig. Ar gyfer dangosydd y Cyfnod Sylfaen, mae'r ysgol yn perfformio yn y 50% uchaf yng Nghymru. Mae cyflawniad y disgyblion ar y lefelau uwch, yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf yng Nghymru ar gyfer datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol ac yn y 50% uchaf mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol.

Yn 2012, cyflawnodd y merched yn llawer gwell na'r bechgyn ym mhob maes dysgu ar wahân i gyrhaeddiad Deilliant 6 mewn datblygiad mathemategol ble roedd perfformiad y bechgyn yn sylweddol uwch.

Mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu am y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, yn 2012, roedd cyflawniad y disgyblion yn lefel 4 ym mhob pwnc craidd, ychydig yn is na chyfartaleddau'r teulu ond yn uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru.

Mae canran y disgyblion a gyflawnodd lefel yn uwch na'r disgwyl (lefel 5) wedi bod yn sylweddol uwch na chyfartaledd y teulu ym mhob pwnc yn gyson ers 2008. Yn 2012, mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru gyfan mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Wrth gymharu cyflawniad yr ysgol gydag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim, mae cyflawniad yr ysgol ar lefel 4 wedi amrywio rhwng y 50% uchaf a'r 50% isaf dros y pedair blynedd flaenorol mewn Saesneg a Chymraeg. Mae perfformiad yr ysgol mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf yng Nghymru am y 4 mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, disgynnodd perfformiad yr ysgol i'r 50% isaf yn 2012 ar gyfer pob pwnc craidd.

Wrth gymharu cyflawniad yr ysgol gydag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim, mae cyflawniad yr ysgol ar lefel 5 yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf yng Nghymru am y 4 blynedd ddiwethaf, mewn Cymraeg. Mae Saesneg a mathemateg hefyd yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf am 3 o'r 4 blynedd diwethaf. Mae gwyddoniaeth wedi bod yn y 50% uchaf am y 4 blynedd diwethaf.

Nid oes gwahaniaethau amlwg dros gyfnod yng nghyflawniad y bechgyn a'r merched. Serch hyn, roedd canlyniadau'r bechgyn yn sylweddol uwch na rhai'r merched ym mhob pwnc yn 2012, gyda'r gwahaniaeth mwyaf i'w weld o ran cyflawni'r lefelau uwch.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd 88 o atebion i'r holiaduron rhieni ac mae bron pob rhiant yn mynegi lefelau uchel iawn o foddhad gyda'r ysgol. Mae'r ymatebion yn gadarnhaol ym mron pob un achos ac ar gyfartaledd yn sylweddol uwch na chymariaethau cenedlaethol.

Mae pob rhiant yn credu bod y staff yn disgwyl i'r plant weithio'n galed ac i wneud eu gorau ac yn trin eu plant â pharch. Mae llawer yn credu bod eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol a bod gwaith cartref yn adeiladu'n ddigonol ar y gwaith a wneir yn yr ysgol.

Mae bron pob un yn hapus gydag ansawdd yr addysgu ac yn cytuno bod yr ysgol yn cael ei harwain yn effeithiol. Mae bron pawb yn cytuno bod yr ysgol yn cynorthwyo'u plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb a bod hyn yn ei dro yn cyfrannu at ymddygiad da'r plant yn yr ysgol.

Mae bron pob rhiant yn credu eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am gynnydd eu plentyn. Mae bron pob rhiant yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem ac yn nodi eu bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer codi cwyn.

Mae bron pob rhiant yn dweud bod y staff wedi helpu eu plentyn i ymgartrefu'n dda wrth gychwyn yn yr ysgol a'u bod yn hoffi'r ysgol ac yn gwneud cynnydd da.

### Ymatebion y Disgyblion

Ymatebodd 107 o ddisgyblion i'r holiadur. Mae bron pob un o'r ymatebion yn gadarnhaol iawn ac nid oes gwahaniaethau nodweddiadol rhwng ymatebion y bechgyn a'r merched. Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion cadarnhaol yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.

Mae bron pob un disgybl yn credu bod athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae llawer o'r disgyblion yn dweud bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith. Mae llawer hefyd yn credu bod plant eraill yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. Mae pob un yn credu bod yr ysgol yn eu haddysgu sut i aros yn iach a bod llawer o gyfleoedd am ymarfer corff rheolaidd yn yr ysgol.

Cred y rhan fwyaf o'r disgyblion eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, a bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith. Serch hyn, mae lleiafrif o'r disgyblion yn credu nad yw'r gwaith cartref a osodir yn eu helpu i ddeall eu gwaith yn yr ysgol. Os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd, mae pob disgybl yn gwybod beth i'w wneud, a gyda phwy i siarad. Pan fo achosion o fwlian, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn hyderus bod yr ysgol yn delio'n dda gyda phob achos a gwyddai pob un gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n gofidio.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Dyfrig Ellis | Arolygydd Cofnodol |
| Eleri Hurley | Arolygydd Tîm |
| Jeremy Turner | Arolygydd Lleyg |
| Sian Hart | Arolygydd Cymheiriaid |
| Dylan Evans | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.